Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd 2019

Mae Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru yn casglu'r data hyn gan awdurdodau lleol (ALlau) yng Nghymru.

Dylai pob Awdurdod Lleol gyfrif faint o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn ei ardal (Os oes ardaloedd yn eich Awdurdod Lleol lle y byddai'n anodd cyfrif unigolion, dylech gael caniatâd Llywodraeth Cymru i'w hepgor.) Dylai Awdurdod Lleol hefyd amcangyfrif nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd dros gyfnod o amser yn ystod y cyfrif.

Bydd y cyfnod casglu data, amcangyfrifo a chasglu holiaduron yn dechrau ar Llun 14 Hydref 2019 am bythefnos yn gorffen am 23:59 ar Sul 27 Hydref 2019.

Dylid cynnal y cyfrif nos rhwng 10pm ar 7 Tachwedd a 5am ar 8 Tachwedd 2019.

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language: Cymraeg/Welsh

Gwybodaeth am y darparwr

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd DEWISWCH

Dilysu

Dolennau	Wedi ei gwblhau
Canllawiau technegol	
Canllawiau cyffredinol	
Canllawiau Atodol	
Diffiniadau	
Manylion cyswllt	0%
Byrdwn wrth ymateb arolygon	0%
Holiadur	

Dolennau ffurflen	Tabl wedi ei gwblhau
Tabl 1 >>	0%
Tabl 2 >>	0%

Dychwelwch y daenlen hon drwy Afon erbyn 15 Tachwedd 2019
http://www.afonwales.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch:
E-bost: casgliadautai@llyw.cymru

afon ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Canllawiau technegol ar gyfer llenwi'r ffurflen

Yn ôl at yr Hafan

Llywio

Byddwch yn gallu symud o ddalen i ddalen trwy glicio ar yr hyperddolen briodol.

Er enghraifft, i ddychwelyd i'r hafan cliciwch yr hyperddolen "Yn ôl i'r Hafan".

Eitemau data gofynnol

Yn y daenlen hon, mae'r nodweddion canlynol i'r celloedd y mae angen data arnynt:

Bydd yr holl gelloedd y mae angen data arnynt yn cael eu lliwio'n las golau.

Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.

Nid oes angen llenwi rhai celloedd am nad ydynt yn berthnasol. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd tywyll. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.

Os nad ydych yn gallu rhoi unrhyw eitem o ddata, gadewch y gell yn WAG. Peidiwch â rhoi testun (NA, N/A neu Heb ei gasglu ac ati) yn unrhyw gell ar wahân i'r celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd bod sero mewn unrhyw gell yn golygu cyfrif o sero ar gyfer yr eitem ddata hon.

Sylwadau

Mae gofod gwyn wedi cael ei ddarparu gerllaw pob tabl ar gyfer sylwadau. Os oes unrhyw eitemau data ar goll yna mae'n rhaid ychwanegu sylw i'r daenlen.

Dilysiad 1

Mae dilysiad 1 yn cynnwys gwirio am wallau synnwyr cyffredin. Mae'n rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen trwy AFON.

Bydd eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysu yn cael eu lliwio'n wyrdd.

Bydd eitemau data lle nad oes data'n cael ei ychwanegu, neu sy'n torri rheol ddilysu, yn cael eu lliwio'n goch. Dylech roi sero lle mae'r eitem ddata yn ddim, neu roi sylw.

Bydd eitemau data sydd ar goll gyda sylw wedi ei roi yn cael eu lliwio'n ambr.

Yn ôl at yr Hafan

Canllawiau ar gynnal Cyfrif Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd

Cyflwyniad

Diben y cyfrif yw meithrin gwell dealltwriaeth o raddfa a thueddiadau cysgu ar y stryd dros gyfnod o amser er mwyn llywio ymatebion polisi lleol a chenedlaethol i'r broblem. Bydd y broses yn galluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi pobl sy'n cysgu ar y stryd mewn ardaloedd penodol ar noson benodol a chefnogi hyn gydag ymarfer casglu data gan ddefnyddio gwybodaeth gan amrywiaeth o wasanaethau dros gyfnod byr. Yr amcan yw cael darlun cyflawn o achosion o gysgu ar y stryd yn lleol.

Methodoleg

Dylid cynnal arolwg yn seiliedig ar holiadur dros gyfnod o bythefnos rhwng 14 a 27 Hydref ymysg yr holl asiantaethau / gwasanaethau lleol a all fod yn ymgysylltu â'r grŵp cleientiaid. Cafodd yr holiadur ei gynllunio gan Dimau Tai a Chefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych a chafodd ei wirio a'i 'brofi'n ddall' gan Datblygu Cymunedol Cymru. Dyma'r holiadur y dylai timau ei ddefnyddio wrth gasglu gwybodaeth oddi bobl a allai fod yn cysgu ar y stryd yn ystod y cyfnod casglu gwybodaeth.

Os bydd Awdurdodau Lleol yn dymuno ychwanegu at yr holiadur hwn at eu dibenion casglu gwybodaeth eu hunain, yna bydd hyn yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol unigol. Dylid cynnal cyfarfodydd cyn y cyfrif er mwyn ystyried canlyniadau'r Holiadur fel bod ffocws i'r Cyfrif ac y llenwir unrhyw fylchau gwybodaeth. Gellir gofyn am gymorth ychwanegol gan swyddogion heddlu cymunedol lleol o ran casglu gwybodaeth a'r cyfrif.

Dylai asiantaethau lleol gwblhau'r holiadur dros y cyfnod o bythefnos a nodir uchod. Dylid defnyddio dynodydd unigryw er mwyn sicrhau na chaiff unigolion eu cyfrif ddwywaith.

Dylid cynnwys canlyniadau'r arolwg sy'n seiliedig ar holiadur yn Nhabl 2.

Y Cyfrif Cipolwg

Caiff y cyfrif ei gynnal rhwng 10pm ar 7 Tachwedd a 5am ar 8 Tachwedd. Byddai cynnal y cyfrif dros fwy nag un noson yn peri'r risg o gyfrif pobl ddwywaith ac felly byddai'r ffigurau'n anghywir.

Caiff y cyfrif ei gynnal ganol wythnos.

Dylid teilwra amseroedd dechrau i fodloni amgylchiadau lleol. Mewn dinasoedd a threfi ag economi gyda'r nos brysur, efallai y byddai'n briodol dechrau'r cyfrif ar ôl hanner nos fel bod pobl sy'n cysgu ar y stryd sy'n gwneud gwely ar ôl i dafarndai a chlybiau gau yn cael eu cyfrif o hyd.

Cynnal y cyfrif

Bydd angen penodi cydgysylltydd er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol ar gael i gynnal y cyfrif ac i gydgysylltu ag asiantaethau eraill er mwyn hysbysu a chael unrhyw ganiatâd angenrheidiol.

Nid oes angen mynd i bob stryd neu barc yn eich ardal awdurdod lleol, ac mae'n annhebygol y bydd gennych ddigon o gyfrifwyr i wneud hyn. Mae'n well defnyddio gwybodaeth a gasglwyd ymlaen llaw i ganolbwyntio ar 'ardaloedd â phroblem' lle mae'n hysbys bod pobl yn cysgu ar y stryd yno ar ardaloedd lle gwelir pobl yn gwelyo weithiau. Mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd yn y cymoedd, does ond angen cyfrif yn yr ardaloedd poblog lle mae tystiolaeth bod posibilrwydd sylweddol bod pobl yn cysgu ar y stryd.

Dylai cydgysylltwyr cyfrif rannu'r ardal a gyfrifir yn is-rannau ar gyfer pob tîm cyfrif. Bydd angen map ar bob tîm cyfrif sy'n dangos ffiniau ei is-ran yn glir ac unrhyw ardaloedd a phroblem yno. Dylech gytuno ar ffiniau pendant, gan nodi strydoedd unigol neu rannau o strydoedd, a'u cofnodi ar y map. Mae'n bwysig nodi ffiniau penodol rhag i ardaloedd gael eu cyfrif ddwywaith neu eu methu'n gyfan gwbl.

Lle bynnag y bo modd, dylai'r timau a'r unigolion sy'n cyfrif fod yn gyfarwydd â'r ardaloedd y byddant yn eu cyfrif. Y cyfrifwyr mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n meddu ar wybodaeth o ble mae pobl yn debygol o gysgu ar y stryd yn yr ardal honno, er enghraifft gweithwyr o dimau allgymorth lleol. Os byddwch yn recriwtio o ystod ehangach o wirfoddolwyr, ceisiwch gynnwys rhywun â gwybodaeth am gysgu ar y stryd yn lleol ym mhob tîm.

Sicrhewch eich bod wedi recriwtio digon o wirfoddolwyr ar gyfer pob is-ran ar y map. Dylid cynllunio o leiaf un tîm cyfrif symudol mewn car i gyfrif ardaloedd ar y cyrion a chynorthwyo timau eraill os byddant yn wynebu oedi. Bydd angen i o leiaf un person, y cydgysylltydd fel arfer, aros ym mhencadlys y cyfrif i ddelio ag ymholiadau a chadw mewn cysylltiad â'r timau cyfrif drwy gydol y noson.

Cynlluniwch o flaen llaw er mwyn sicrhau mynediad i ardaloedd lle gall pobl fod wedi gwneud eu gwely nad ydynt ar agor i'r cyhoedd (e.e. tiroedd ysbytai neu golegau, parciau, pyllau grisiau adeiladau). Peidiwch â chynllunio mynediad i ardaloedd a fydd yn beryglus i gyfrifwyr. Efallai y bydd angen i chi gysylltu â'r heddlu, parcmyn neu gwmnïau diogelwch i sicrhau mynediad.

Ymyriadau ar Noson y Cyfrif

Argymhellir, lle y bo'n bosibl, y gwneir trefniadau ymlaen llaw fel bod gwelyau brys ar gael i bobl a gaiff eu cyfrif sydd am symud oddi ar y stryd. Os caiff unrhyw un sy'n cysgu ar y stryd gymorth drwy unrhyw ymyriad ar noson y cyfrif dylid parhau i'w cyfrif fel pobl sydd wedi gwneud eu gwely at ddibenion y cyfrif a'u cofnodi yn y ffigur sengl.

Gallai ymyriadau eraill gynnwys:

Gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n cysgu ar y stryd/digartrefedd yn yr ardal leol, e.e. canolfannau galw heibio, sefydliadau digartrefedd, eglwysi, ac ati.

Lle y bo'n bosibl, efallai y bydd yn ddefnyddiol gweld a yw'r unigolyn yn deall neu'n gwybod sut i wneud cais digartrefedd. Os na, dylid darparu'r wybodaeth hon.

Ystyriaethau Diogelwch

Mae gan Gydgysylltwyr Cyfrif gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch pawb sy'n gysylltiedig â chyfrif pobl sy'n cysgu ar y stryd.

Rhaid cadw cydbwysedd rhwng cadw pobl yn ddiogel a'r angen i gasglu cymaint o wybodaeth ddibynadwy â phosibl ynglŷn â phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Er mwyn cael y cydbwysedd yn gywir, dylai'r Cydgysylltydd wneud y canlynol:

• Rhoi canllawiau clir i gyfrifwyr o ran p'un a ddylent ddeffro unrhyw bobl ddieithr/newydd sy'n cysgu ar y stryd a ddarganfyddir yn ystod y cyfrif. Byddai hyn er mwyn canfod mwy amdanynt a chynnig cymorth a, lle y bo ar gael, asesiad/llety. Yn y rhan fwyaf o achosion, oni bai bod y cyfrifwyr yn weithwyr allgymorth, bydd yn fwy diogel i beidio â deffro'r person, ond i adael rhywfaint o wybodaeth am wasanaethau lleol a threfnu bod tîm allgymorth yn edrych allan amdano ar y sifft nesaf. Noder mai dim ond y ffigur sengl sydd ei angen, a phenderfyniad lleol yw casglu mwy o wybodaeth.

• Trefnwch y cyfrif fel bod y cyfrifwyr yn gweithio mewn timau o ddau o leiaf a bod ganddynt yr offer perthnasol e.e. tortshys, ffonau. Dylai'r Cydgysylltydd fod yn ymwybodol o lwybr arfaethedig pob tîm i'w ardal gyfrif ac oddi yno, a chadw mewn cysylltiad rheolaidd â nhw dros y ffôn yn ystod y cyfrif.

• Mae ymddygiad y cyfrifwyr yn hollbwysig. Dylid rhoi canllawiau clir iddynt ymlaen llaw ynglŷn â'u rôl a dylid eu hanfon adref o'r cyfrif os ydynt yn anaddas (e.e. yn feddw).

• Dylid dweud wrth gyfrifwyr am beidio â mynd i ardaloedd y maent yn teimlo eu bod yn anniogel heb gymorth yr heddlu. Dylai cyfrifwyr fod yn ymwybodol efallai na fydd signal ffôn symudol mewn ardaloedd gwledig. Os bydd cyfrifwyr yn teimlo'n agored i niwed oherwydd y lleoliad ac nad oes signal ffôn digonol, ni ddylai cyfrifwyr beryglu eu hunain.

• Dylid gofyn i'r heddlu lleol gynorthwyo gyda'r cyfri ac efallai y byddant yn fodlon gwneud hynny. Mae bod â swyddogion yr heddlu ar gael ar y noson yn golygu bod mwy o opsiynau ar gael o ran deffro pobl dieithr/newydd sy'n cysgu ar y stryd er mwyn casglu gwybodaeth a chynnig cymorth.

• Dylid trefnu lleoliad diogel ar gyfer cynnal cyfarfod cychwynnol a dadfriffio, fel adeilad awdurdod lleol neu ganolfan ddydd, lle gall cyfrifwyr gwrdd a dychwelyd iddo unwaith y byddant wedi cwblhau eu hardal. Dylai fod trefniadau clir ar gyfer cyrraedd yr adeilad a chael mynediad iddo.

• Cyfrifoldeb y Cydgysylltydd yw cludo cyfrifwyr o (ac o bosibl i) bencadlys y cyfrif yn ddiogel.

• Dylai cyfrifwyr feddu ar brawf adnabod a llythyr gan yr awdurdod lleol yn egluro pam eu bod allan yn hwyr gyda'r nos ac mewn lleoliadau anarferol.

• Ar noson y cyfrif, dylai'r Cydgysylltydd fynd trwy'r gweithdrefnau diogelwch yn ofalus gyda chyfrifwyr a rhoi amser i'r cyfrifwyr ofyn cwestiynau. Bydd hyn yn cynnwys: pryd i alw yn ôl i'r pencadlys, sut i ymateb i argyfyngau, pryd i adael ardal, a sut i ddelio ag ymddygiad ymosodol neu ddicter gan bobl sy'n cysgu ar y stryd neu bobl eraill.

Cofnodi'r data:

Wrth baratoi ar gyfer noson y cyfrif, dylai awdurdodau lleol lunio ffurflen at ddefnydd lleol.

Dylai cyfrifwyr gofnodi pob unigolyn ar linell newydd o'r ffurflen, yn hytrach nag ysgrifennu'r cyfanswm ar y ffurflen gan na ellir dilysu hyn fel cofnod cywir.

Gellir cofnodi gwybodaeth am bob person sy'n cysgu ar y stryd yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol am y person a'i fan cysgu, yn hytrach na'i ddeffro.

Bydd yn ddefnyddiol os yw cyfrifwyr yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl am leoliad pobl sy'n cysgu ar y stryd, gan y gallai hyn fod o gymorth wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Rhaid cwblhau ffurflenni ar noson y cyfrif a'u dychwelyd i Gydgysylltydd y Cyfrif ar y noson honno i'w dilysu.

Mae manylion unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn gyfrinachol. Dylid cadw a rhannu gwybodaeth yn unol â phrotocol yr awdurdod lleol (neu'r asiantaeth sy'n cydlynu'r cyfrif), a all gynnwys trefniadau rhannu gwybodaeth gyda gwasanaethau lleol.

Atodiad 1

Diffiniad o Gysgu ar y Stryd

Atodiad 3

I lywio ymateb awdurdod lleol i gysgu ar y stryd

Atodiad 4

Cynnal yr Ymarfer Monitro Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd (Hydref 2019)

Mae pecyn cymorth manwl i gynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid i werthuso graddau cysgu ar y stryd yn gywir ar gael oddi wrth Homeless Link:

www.homeless.org.uk/evaluating-roughsleeping

Yn ôl at yr Hafan

Canllawiau Atodol

Canllawiau Atodol ar gyfer Cwblhau'r Arolygon Cyfrif Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd

Diben yr arolygon yw ategu'r cyfrif un noson drwy gasglu data o amryw ffynonellau. Caiff y data hyn eu defnyddio i bennu ardaloedd targed y cyfrif un noson a meithrin dealltwriaeth fwy manwl o gysgu ar y stryd. Mae Atodiad 4 yn nodi'r broses arfaethedig o'r cam cynllunio hyd at gyflwyno'r data yn derfynol.

Cafodd yr holiadur yn Atodiad 2 ei gynllunio gan Dimau Tai a Chefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych a chafodd ei wirio a'i 'brofi'n ddall' gan Datblygu Cymunedol Cymru. Dyma'r holiadur y dylai timau ei ddefnyddio wrth gasglu gwybodaeth oddi bobl a allai fod yn cysgu ar y stryd yn ystod y cyfnod casglu gwybodaeth. Os bydd Awdurdodau Lleol yn dymuno ychwanegu at yr holiadur hwn at eu dibenion casglu gwybodaeth eu hunain, yna bydd hyn yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol unigol.

Bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi ac ategu trefniadau presennol eich Awdurdod Lleol ar gyfer cynllunio a chynnal yr arolwg. Nid dogfen waharddol yw hon ac efallai na fydd rhai awgrymiadau yn berthnasol i'ch Awdurdod Lleol. Os byddwch o'r farn eich bod wedi datblygu arfer da nas cynhwyswyd yn y canllawiau hyn, gallwch anfon hwn at Robert.Owen5@Llyw.Cymru a Carl.Spiller@Llyw.Cymru

Cynllunio

Bydd ymateb yr arolwg yn fwy llwyddiannus os gallwch gynllunio ymlaen llaw.

Y pethau i'w hystyried wrth gynllunio yw:
- Ystyried enwebu swyddog arweiniol Awdurdod Lleol i gydgysylltu'r gwaith o gynnal yr arolwg hwn
- Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal dros gyfnod o bythefnos o leiaf
- Caiff y dyddiadau eu gosod fel y gellir cymharu'r 22 ardal ALl. Cofiwch fod angen coladu canfyddiadau'r arolygon mewn pryd er mwyn bwydo i mewn i'r cyfrif un noson
- Nodi Cylchlythyrau, Cyfarfodydd a Fforymau lle y gallwch hysbysebu a hyrwyddo'r cyfrif i randdeiliaid ac asiantaethau
- Efallai y cewch fudd o drefnu cyfarfod cyn yr arolwg gydag asiantaethau allweddol y dymunwch iddynt gymryd rhan.

Agenda a awgrymir yw;
- o Diben yr arolwg
- o Diffiniad o Gysgu ar y Stryd (Atodiad 1)
- o Cytuno ar restr o asiantaethau sy'n cymryd rhan
- o Cytuno ar unrhyw gwestiynau lleol ychwanegol
- o Enwau cyswllt ar gyfer pob asiantaeth
- o Dyddiadau'r Arolwg (caiff y rhain eu pennu gan Lywodraeth Cymru)
- o Sut i gyflwyno'r arolygon sydd wedi eu cwblhau
- o Â phwy i gysylltu am gyngor a chymorth

- Bydd gan bob Awdurdod Lleol wahanol asiantaethau yn gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd yn ei ardal. Er mwyn i'r arolwg fod mor gywir â phosibl, argymhellir bod yr Awdurdod Lleol yn cynnwys cynifer o asiantaethau lleol â phosibl.

Yr asiantaethau a awgrymir yw:
- o Aelodau'r Tîm Digartrefedd
- o Gwasanaethau Dydd Digartrefedd
- o Llochesi Nos a hosteli
- o Darparwyr Gwasanaeth Cefnogi Pobl
- o Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Tîm o Amgylch y Teulu
- o Swyddogion yr Heddlu, Rheolwyr Rhawd Gymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- o Swyddogion Diogelwch Tân
- o Darparwyr Gwasanaeth A180
- o Staff Gwasanaethau Cymdeithasol – Un Pwynt Mynediad, Timau Cyswllt Cyntaf
- o Staff Iechyd – Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau, Meddygon Teulu, Gwasanaethau Nyrsio ar gyfer pobl ddigartref ac ati.
- o Staff llyfrgell
- o Eglwysi a sefydliadau gwirfoddol
- o Sefydliadau cynhgori, Shelter, Cyngor ar Bopeth

- Bydd e-byst atgoffa rheolaidd i'r asiantaethau yn ystod yr arolwg yn ysgogiad
- Os oes adnoddau ar gael, gallai Cydgysylltydd arolwg yr Awdurdod Lleol a enwebir ymweld ag asiantaethau yn ystod cyfnod yr arolwg i gynnig cymorth gyda chwblhau'r arolygon

Casglu'r ymatebion

Er mwyn cael yr ymateb gorau, bydd angen i chi wneud y broses ymateb mor hawdd â phosibl i bob asiantaeth sy'n cymryd rhan.

I wneud hyn efallai yr hoffech ystyried y canlynol:

- Cynnig casglu'r arolygon o'r asiantaethau unigol
- Enwebu sawl swyddfa lle gellir gadael arolygon
- Derbyn arolygon ar-lein - naill ai wedi'u sganio neu eu mewnbynnu

Defnyddio'r data

Mae Llywodraeth Cymru am i bob Awdurdod Lleol gwblhau ffurflen sy'n cofnodi'r data a gasglwyd drwy'r Arolwg a'r cyfrif un noson. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r data yn y ffyrdd canlynol

- o I lywio'r cyfrif un noson, lle gellir defnyddio'r wybodaeth am leoliadau i dargedu'r cyfrif yn yr ardaleodd hynny
- o I lywio ymateb awdurdod lleol i gysgu ar y stryd (Gweler Atodiad 3 er enghraifft o Sir Ddinbych)
- o I lywio gwaith cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn lleol

Unrhyw ddarpariaethau brys eraill (yn benodol ar gyfer pobl sy'n (neu mewn perygl) cysgu ar y stryd

Rhestrwch y prosiectau, y nifer o welyau mewn argyfwng a'u hargaeledd ar y nos, ar gyfer unrhyw ddarpariaethau brys eraill (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhes gwelyau argyfwng) a ddarperir gan eich awdurdod ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd ee NightStop, Llochesi nos(os nad ydynt wedi'u cynnwys yn rhes 2), Hosteli ac unrhyw lety mynediad rheoledig arall sydd ar gael trwy 'Gateways'. Peidiwch â chynnwys mynediad uniongyrchol (dylai hyn gael ei gynnwys bob amser yn rhes 2 uchod) a pheidiwch â chynnwys llety Gwely a Brecwast.

Fel arfer, deallir fod darpariaeth mynediad uniongyrchol yn derbyn pobl wrth y drws. Gall berson hunangyfeirio / fynd at hostelau, llochesi noson a chael gwely ar gyfer y noson.

Yn dilyn y casgliad, gallai Llywodraeth Cymru gysylltu â chi er mwyn cael eglurhad pellach

Diffiniadau

Yn ôl at yr Hafan

At ddiben cyfrif argymhellir y diffiniad canlynol o berson sy'n cysgu ar y stryd:

• Pobl yn cysgu,
• Ar fin mynd i'w gwely (eistedd yn/ar eu dillad gwely neu'n sefyll wrth eu hochr)
• Wedi gwneud gwely yn yr awyr agored (megis ar y stryd, mewn pebyll, drysau, parciau, llochesau bws neu wersylloedd).
• Pobl sydd wedi gwneud gwely mewn adeiladau neu fannau eraill nad ydynt yn fannau preswylio (megis pyllau grisiau, beudai, siediau, meysydd parcio, ceir, cychod adfeiliedig, gorsafoedd neu “bashes”).

Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cyfrif fod yn ymwybodol nad yw'r diffiniad yn cynnwys y canlynol:

• Pobl mewn hosteli/llochesi nos,
• Pobl sy'n cysgu ar soffa ffrindiau,
• Pobl mewn safleoedd gwersylla neu safleoedd eraill a ddefnyddir at ddibenion hamdden neu brotest a drefnwyd, sgwatwyr neu deithwyr.

Bydd angen i'r rhai sy'n cyfrif benderfynu a yw person yn debygol o fod yno am y noson. Mae ymchwil wedi dangos, mewn sawl ardal, nad yw pobl a welir yn yfed ar y stryd neu'n begera (hyd yn oed os oes ganddynt flanced neu sach gysgu) o anghenraid yn cysgu ar y stryd ac ni ddylid eu cynnwys oni bai bod y sawl sy'n cyfrif yn fodlon bod y person yn debygol o wneud ei wely yn hwyrach y noson honno. Byddai timau Allgymorth lleol yn ffynhonnell dda o wybodaeth os oes unrhyw amheuaeth.

Gwelyau brys

Mae a wnelo gwelyau brys â chael mynediad uniongyrchol, lloches nos neu welyau tywydd oer mewn eglwysi, canolfannau cymunedol ac ati, ond ni fyddai'n cynnwys gwely a brecwast

Mynediad Uniongyrchol

Fel arfer, deallir fod darpariaeth mynediad uniongyrchol yn derbyn pobl wrth y drws. Gall berson hunangyfeirio / fynd at hostelau, llochesi noson a chael gwely ar gyfer y noson.

Cyfrif Un Noson Cipolwg:

Mae cyfrif pobl sy'n cysgu ar y stryd yn rhoi cipolwg o nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd mewn ardal awdurdod lleol ar noson benodol. Er na fwriedir iddo fod yn gofnod cywir o bawb yn yr ardal sydd â hanes o gysgu ar y stryd, gall fod yn ffordd effeithiol o amcangyfrif graddfa'r broblem a chynnig ffordd o fonitro'r cynnydd wrth waredu'r angen i gysgu ar y stryd dros gyfnod o amser.

Amcangyfrif Niferoedd Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd:

Disgwylir y cynhelir amcangyfrif ymarfer a chasglu gwybodaeth cyfrif pobl sy'n cysgu ar y stryd, drwy ofyn i asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl a allai fod yn cysgu ar y stryd i gynnal arolwg o'u cleientiaid dros gyfnod o bythefnos cyn y cynhelir y cyfrif cipolwg.

Manylion cyswllt

DEWISWCH

Yn ôl at yr Hafan

Rhowch fanylion cyswllt eich awdurdod isod. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyfeirio unrhyw ymholiadau at y cyswllt cywir

Ffurflen wedi'i chwblhau gan/Prif gyswllt ymholiadau data:

	D1
Enw	✘
Rhif ffôn	✘
E-bost y swyddog cyswllt	✘

Manylion cyswllt eraill

Enw	✘
Rhif ffôn	✘
E-bost y swyddog cyswllt	✘

Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

DEWISWCH

Tabl 1

Yn ôl at yr Hafan

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Cynhwyswch amser sydd wedi'i dreulio ar weithgareddau yn darparu ac anfon y ffurflen hon, megis:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru trwy AFON.

Gradd y staff	Oriau wedi'u cymryd	**D1**
Band 1 (£11,500 - £19,999)		✘
Band 2 (£20,000 - £26,999)		✘
Band 3 (£27,000 - £33,999)		✘
Band 4 (£34,000 - £53,999)		✘
Band 5 (£54,000+)		✘

Sylwad

Atodiad 2 Yn ôl at yr Hafan

Arolwg Cysgu ar y Stryd Hydref 2019

Nod yr holiadur hwn yw helpu asiantaethau i ddeall faint o bobl sy'n cysgu allan, am ba hyd maent yn cysgu allan, a sut maent yn gwneud hynny. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu gwasanaethau cymorth priodol, gan eu targedu at y bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Mae'r arolwg yn hawdd iawn i'w gwblhau. Llenwch yr holiadur gyda phob person sy'n cysgu allan neu sy'n dweud eu bod yn cysgu allan yn ystod y cyfnod o bythefnos er mwyn inni gael syniad o'u profiadau. Gofynnwch iddynt lenwi'r ffurflen eu hunain, neu gofynnwch am ganiatâd i'w llenwi ar eu rhan.

1. A wnaethoch gysgu ar y stryd neithiwr? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

2. Fuoch chi'n cysgu allan gydag aelod arall o'r teulu? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

Os do, allwch chi ddweud pwy?

3. Am sawl noson yn olynol ydych chi wedi bod yn cysgu ar y stryd y tro hwn?

4. Rheswm dros gysgu ar y stryd? (Beth achosodd ichi gysgu allan y tro hwn?)

5. Ydych chi wedi cysgu ar y stryd o'r blaen cyn y cyfnod hwn? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

Os do, allwch chi roi dyddiadau?

6. Rheswm dros fod yn ddigartref? (Beth achosodd ichi golli'ch llety yn y lle cyntaf?)

7. Os oeddech yn cysgu ar y stryd neithiwr, disgrifiwch ble y gwnaethoch gysgu e.e. ar draeth; mewn drws siop; mewn pabell ar dir gwastraff? Neu rhywle arall?

8. Os na fuoch chi'n cysgu'r tu allan yn yr awyr agored, fuoch chi'n cysgu allan rywle arall? Er enghraifft, mewn sgwat neu rywle tebyg? Disgrifiwch hyn isod, gan nodi nifer y nosweithiau.

9. A oes gennych eich cartref eich hun neu denantiaeth ar gyfer llety y gallech ei ddefnyddio?

10. Hoffech chi gael cymorth i roi'r gorau i gysgu ar y stryd? Rhowch gylch o amgylch Do

Pa gymorth sydd ei angen arnoch er mwyn gwneud hyn?

11. Ydych chi wedi troi at Awdurdod Lleol, neu at asiantaeth arall am gymorth rywbryd yn y gorffennol? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

Os do; nodwch beth ddigwyddodd.

12. Beth oedd eich cyfeiriad sefydlog diwethaf? Neu, os nad yw hynny'n hysbys, yn ardal pa awdurdod lleol oedd y cyfeiriad?

13.A yw'r canlynol yn berthnasol i chi? (Gallwch dicio mwy nag un)

Rydw i wedi cael dedfryd o garchar yn y dair blynedd ddiwethaf		
Rydw i wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog (y Fyddin, y Llynges, y Llu Awyr ac ati, gan gynnwys fel aelod o'r cefnlu)		Lluoedd Arfog rheolaidd
		Milwyr wrth gefn

Dyddiad rhyddhau o'r carchar

14. Ydych chi wedi derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol)? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

15. Ydych chi wedi cael eich rhyddhau o'r ysbyty heb lety i fynd iddo?

Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty

16. A oes gennych gyflwr iechyd meddwl? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

Diagnosis yn y 12 mis dwethaf

Diagnosis yn y 1-3 mlynedd dwethaf

Diagnosis dros 3 blynedd

Gwell peidio ateb

17. Ydych chi'n derbyn cefnogaeth/meddyginiaeth am gyflwr iechyd meddwl ar hyn o bryd? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

18. Ydych chi erioed wedi derbyn triniaeth ysbyty am gyflwr iechyd meddwl? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

19. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

Diagnosis yn y 12 mis dwethaf

Diagnosis yn y 1-3 mlynedd dwethaf

Diagnosis dros 3 blynedd

Gwell peidio ateb

20. A ydych ar hyn o bryd yn derbyn cymorth / meddyginiaeth am gyflwr iechyd corfforol? Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

21. Ar raddfa o 0-10, gyda 0 yn golygu sâl iawn a 10 yn holliach, sut ydych chi'n teimlo nawr?

Beth yw Tair Llythyren Gyntaf Enw Cyntaf eich Mam?

Beth yw eich Dyddiad Geni?

Rhyw Gwryw / Benyw

Ethnigrwydd

Gwyn

Cymysg / mwy nag un grŵp ethnic

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Prydeinig Du

Arall

Tras anhysbus

Cenedligrwydd

Rwy'n fodlon i'r wybodaeth ar y ffurflen hon gael ei defnyddio at ddibenion ymchwil Rhowch gylch o amgylch Do neu Naddo

Dyddiad y cafodd y ffurflen hon ei chwblhau

Nodwch y bydd yr atebion ar y ffurflen hon yn cael eu cadw'n ddienw

Yn ôl at yr Hafan

Atodiad 1

Diffiniad o Gysgu ar y Stryd

Pobl yn cysgu, ar fin mynd i'r gwely (eistedd yn/ar eu dillad gwely neu'n sefyll wrth eu hochr) neu'n wedi gwneud gwely yn yr awyr agored (megis ar y stryd, mewn pebyll, drysau, parciau, llochesau bws neu wersylloedd). Pobl sydd wedi gwneud eu gwely mewn adeiladau neu fannau eraill nad ydynt yn fannau preswylio (megis pyllau grisiau, beudai, siediau, meysydd parcio, ceir, cychod adfeiliedig, gorsafoedd neu "bashes").

Atodiad 3

Yn ôl at yr Hafan

Cynhaliwyd Cyfarfod Amlasiantaeth Cychwynnol

Bydd Grwpiau Digartrefedd, Cefnogi Pobl a Chymunedol yn cytuno ar Holiadur Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd , a ddosbarthir ymysg sefydliadau lleol sydd efallai'n dod i gysylltiad â phobl sy'n cysgu ar y stryd, i ganfod graddau cysgu ar y stryd a'r math o gysgu ar y stryd yn yr ardal leol dros gyfnod penodol o bythefnos

Helpu pobl i gasglu holiaduron wedi'u cwblhau a helpu swyddogion i gasglu data a'u dadansoddi

Adrodd yn ôl ar ganfyddiadau yn y Cyfarfod Cysgu ar y Stryd a gaiff ei gynnal bythefnos ar ôl y dyddiad hwn

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Holiadur Cysgu ar y Stryd, cynhelir Cyfrif Cysgu ar y Stryd ar un neu ddwy noson ym mis Tachwedd 2019.

Caiff Cofrestr Cysgu ar y Stryd ei datblygu i ddechrau o'r unigolion a nodwyd o'r Holiadur gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng DCC Homelessness, Cefnogi Pobl a sefydliadau lleol.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Holiadur Cysgu ar y Stryd, trafodir strategaeth i ddelio â phobl sy'n cysgu ar soffa ffrindiau ynghyd â'r ymateb i gysgu ar y stryd traddodiadol, oherwydd cydnabyddir bod cysgu ar soffa ffrindiau yn aml yn atal cysgu ar y stryd.

Cynhelir cyfarfodydd Cofrestr Cysgu ar y Stryd rheolaidd yn debyg i'r Cyfarfodydd Marac cydgysylltiedig. Bydd DCC Homelessness yn arwain, wedi'i gefnogi gan Cefnogi Pobl, gyda nifer o sefydliadau yn bresennol a fydd yn bwydo gwybodaeth i mewn ar gysgu ar y stryd. Trafodir camau gweithredu clir a'u dyrannu i'r person/asiantaeth fwyaf priodol yn y cyfarfodydd, ynghyd ag amserlenni clir a fydd yn sicrhau atebolrwydd am ymateb cyflym. Disgwylir cynnal y cyfarfodydd hyn bob deufis.

Nid pwrpas y Gofrestr yw sefydlu pwy sydd â dyletswydd, ond sefydlu dull gweithredu cydgysylltiedig ac arloesol i roi cymorth i bobl sy'n cysgu ar y stryd, gan na fydd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â llwybrau cymorth traddodiadol a/neu statudol.

Bydd hyn yn rhan o amrywiaeth o wasanaethau cymorth wedi'u hailfodelu a gynigir i bobl sy'n cysgu ar y stryd, a'r darparwr gwasanaethau newydd yn gweithio'n agos â DCC Homelessness i gydgysylltu'r Gofrestr. Bydd DCC Homelessness yn parhau i fod yn bennaf cyfrifol am y Gofrestr.

Yn ôl at yr Hafan

Atodiad 4

Cynnal yr Ymarfer Monitro Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd (Hydref 2019)



Tabl 1: Cyfrif pobl sy'n cysgu ar y stryd

DEWISWCH

Ewch i'r arweiniad
Ewch i'r diffiniadau

Tabl 2
Yn ôl at yr Hafan

Cyfrif yw cipolwg un noson o nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn ardal yr awdurdod lleol. Dylid cyfrif gan ddilyn y canllawiau a nodir yn y ddolen uchod.

Dylid cynnal y cyfrif un noson rhwng 10pm ar 8 Tachwedd a 5am ar X Tachwedd 2019.

	Tabl 1:	Cyfanswm	2018	D1	Sylwad
1	Cyfanswm pobl sy'n cysgu ar y stryd			✘	
2	Cyfanswm nifer y gwelyau brys			✘	
3	Y nifer a oedd ar gael ar noson y cyfrif			✘	

Unrhyw ddarpariaethau brys eraill nad ydynt wedi'u cynnwys uchod? - gweler Cyfarwyddyd Atodol

Canllawiau Atodol

	Darpariaeth brys	Cyfanswm nifer y gwelyau sydd ar gael	Nifer y gwelyau a gymerwyd ar y noson
4			

Sylwad

Tabl 2: Amcangyfrif o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd

DEWISWCH

Ewch i'r arweiniad
Ewch i'r diffiniadau

Yn ôl at yr Hafan

Dylai amcangyfrif fod yn ffigur sengl (yn hytrach nag ystod) sy'n dangos nifer y bobl yr ystyriwyd eu bod yn cysgu ar y stryd yn ardal yr awdurdod lleol yn y cyfnod o bythefnos a ddewiswyd rhwng 14 Hydref a 27 Hydref yn cynnwys y dyddiadau hyn. Cynghorir awdurdodau i ddod ag asiantaethau lleol, sefydliadau iechyd a gwasanaethau yn y gymuned sy'n dod i gysylltiad â phobl sy'n cysgu ar y stryd ynghyd a defnyddio eu harbenigedd i bennu amcangyfrif. Dylid defnyddio'r canllawiau a nodir yn y dolenni uchod i bennu amcangyfrif.

		Cyfanswm	2018	D1	Sylwad
		a		a	
1	Amcangyfrif o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd			✖	

Pennwyd yr amcangyfrif hwn yn dilyn ymgynghoriad â (nodwch bob un sy'n gymwys)

4	i) Y Sector Gwirfoddol	☐	
5	ii) Grwpiau Ffydd	☐	
6	iii) Gweithwyr allgymorth	☐	
7	iv) Preswylwyr/busnesau lleol	☐	
8	v) Yr Heddlu	☐	
9	vi) Asiantaethau Iechyd	☐	
10	vii) Asiantaethau Camddefnyddio Sylweddau	☐	
11	vii) Timau Triniaethau Cyffuriau ac Alcohol	☐	

Sylwad